Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried: Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Gorffennaf 2024

Ar 15 Gorffennaf 2024, cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)yn y Senedd.

Ar 25 Mehefin 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 9 Gorffennaf 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Senedd erbyn 13 Rhagfyr 2024.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Mawrth 2025, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.